# TYSTIOLAETH: TAIR CERDD

GEIRIAU: ERIC NGALLE CHARLES

LLUNIAU: NICKY ARSCOTT

CYFIEITHIAD: CASIA WILIAM
IFOR AP GLYN

CEFNOGWYD GAN:

WALES PEN CYMRU
WRITERS WORLDWIDE
AWDURON BYD EANG

RHYBUDD CYNNWYS:
MAE'N CYNNWYS THEMÂU A DELWEDDAU ALLAI BERI GOFID I RAI


O DAN Y CROCBREN
SŴN Y
DJEMBE:
CÂN YN FY MAMIAITH
BAKWERI
YN ADRODD FY
HANES WRTH MAM
STOP.
(MAE'R GERDD YN DECHRAU)


CLYWAIS EU CRI
YN DDIM OND SI I DDECHRAU
CLYWAIS NHW'N BELL, BELL I FFWRDD
YN YSTOD FY SIWRNA FAITH
YN CROESI MOROEDD
YN DRINGO MYNYDDOEDD
YN CEISIO HEDDWCH
HEB EI GANFOD


HWN OEDD Y TRO CYNTAF A'R TRO OLAF
IDDI ADAEL EI GWAITH I FOD EFO FI
ROEDD HI'N OSGOI EDRYCH ARNAF
AC WRTH EDRYCH ARNI HI SYLWAIS EI BOD YN CRIO
TYDI GWELD EICH MAM YN CRIO BYTH YN HAWDD
MEDDYLIAIS, EFALLAI Y BYDDAI'N WELL I MI AROS ADREF
WRTH OSGOI EDRYCH ARNAF O HYD, CYDIODD YN FY NWYLO A BRATHODD FY MYSEDD
YN DYNER FESUL UN
GAN DALU GWROGAETH I HEN AIR Y PENTREF
BLE BYNNAG YR AF
BYDD ENEIDIAU FY NGHYNDEIDIAU YN GWMNI I MI
A MINNAU IDDYNT HWYTHAU.



A WYDDAI FY NGHYNDEIDIAU Y BYDDWNYN CYRRAEDD RWSIA?



GWENODD ŴR FY NIWEDDAR CHWAER ARNAF.
ROEDD VICTOR A KULU, FY FFRINDIAU, YN HAPUS DROSTA I, YN FY NGWELD I'N DDEWR
TU MEWN ROEDD OFN A HIRAETH YN FY NGHNOI, YR OFN MWYAF - NA WELWN FY MAM FYTH ETO.
[SAIB.]
[SŴN Y DJEMBE]
PAN GEFAIS LOCHES AM Y TRO CYNTAF YN NHŶ FY FFRIND CYMRAEG YN NHRELÂI



ROEDDWN EISIAU DWEUD WRTHO AM Y GORS O DROSEDD YN PECHATNIKI, MOSCO
ROEDDWN EISIAU DWEUD WRTHO PAM FY MOD WEDI GADAEL FY MAMWLAD AR GYMAINT O FRYS
PAM FY MOD WEDI DRINGO MYNYDDOEDD
CROESI MOROEDD
YN CEISIO HEDDWCH HEB EI GANFOD


FEL PETAI NEGESYDD DIRGEL WEDI DANFON GAIR
AT FY FFRIND CYMRAEG
AM YR HYN OEDD YN DIGWYDD
YN FY LLYS BARN MEWNOL
RHODDODD FY FFRIND
CYMRAEG EI LAW AR FY YSGWYDD
A CHYNNIG CADAIR I MI


AC MEDDAI
ERIC, ´AG SHAR´AG CYMRAEG?
DIM! DWI'N HOFFI TRIOG SHAR´AG CYMRAEG
MEDDAI FY FFRIND CYMRAEG "DYLAI TYSTION FEL TI SEFYLL DRAW FAN'CW, YN WYNEBU'R CYHOEDD NI DDYLET RANNU DY HUN RHWNG BARNWR, RHEITHGOR, ERLYNIAD NEU AMDDIFFYNIAD"


MEDDAI "MEWN AMBELL GYMDEITHAS MAE TAWELWCH YN AUR
MEWN AMBELL GYMDEITHAS MAE SIARAD YN ARIAN
MEWN AMBELL GYMDEITHAS GALL DYN OROESI AR ÔL DISGYN O'R PYMTHEGFED LLAWR
OND CAI EI DDIENYDDIO AM ATEB IE NEU NA I GWESTIWN SYML."



"MEWN AMBELL GYMDEITHAS" MEDDAI, "MAE'R BRENIN YN DANGOS EI DACLAU I'R BOBL"
IE, FEL PETAI NEGESYDD DIRGEL WEDI DANFON GAIR AT FY FFRIND CYMRAEG AM YR HYN OEDD YN DIGWYDD YN FY LLYS BARN MEWNOL
MEDDAI




"NGALLE, MEWN AMBELL GYMDEITHAS, PAN MAE DAU ELIFFANT YN BRWYDRO, Y GLASWELLT SY'N DIODDEF"
" YN SYRIA" MEDDAI
"MAE'R ELIFFANTOD YN BRWYDRO
YN DARFUR
MAE'R ELIFFANTOD YN BRWYDRO
YN ERITREA
MAE'R ELIFFANTOD
YN YEMEN
MAE'R ELIFFANTOD YN BRWYDRO."


"YMA, YNG NGHYMRU, CROESO," MEDDAI. "RHYW DDYDD BYDD DY SEREN YN DISGLEIRIO, NID O DAN Y CROCBREN."
WARNINGS TO
My mother

# RHYBUDD I BLENTYN 'STYFNIG





CES RYBUDD GAN FY MAM
CES RYBUDD GAN FY NHAD
DYWEDON NHW:
PAN GYRHAEDDI DI GOPA'R BRYN
PAID OCHNEIDO, PAID DANGOS FOD TI 'DI BLINO...
OND AR Y COPA, OCHNEIDIAIS, ANADLAIS YN DRWM, RON I WEDI YMLÂDD
AC AM HYNNY GWELAIS I'R DIAFOL, JUKUKE A'I BRENTIS MEVOMBA


WNAETH DDANGOS ERCHYLLTERAU A MYND Â FI O'MA..
RO'N I WEDI BLINO
YN WAN I GYD
BACHGEN O'N I
A'M HESGYRN YN FEDDAL



WALDIODD Y BARNWR EI FORTHWYL LLYS, GAN WEIDDI
MAKAMA MAKAMA MAKAMA
ALLTUDIAETH
AI ALLTUDIAETH FEL YN ACHOS Y MOLIKILIKILI? Y PRY PRIC CHWEDLONOL A FU FARW AC YNA ATGYFODI O FARW'N FYW
GAN HERIO'R TORRWYR BEDD A'R GALARWYR, PAM NA CHAFODD HI EI 'MOLCHI WIR YN LLE EI CHLADDU MEWN DILLAD BUDR?
Since correction lieth in those hands *
AI ALLTUDIAETH FEL Y PROFODD MOWBRAY?
* Richard II
NEU WYT TI'N MEDDWL
ALLTUDIAETH GO IAWN
TU HWNT I BYRTH Y PENTRE
GAN GROESI'R MÔR, DRINGO MYNYDDOEDD, YN CEISIO HEDDWCH MEDDWL HEB GANFOD DIM?


AC WRTH WELD FY HUN YN FFOI FEL HYN GWELAIS FY NAIN YN TWTIO'R BLODAU AR FY MEDD, YN AILBEINTIO'R GEIRIAU AR GARREG FY MEDD:
'BU Ngalle YMA' 'NID ywNgalle MWY'
AC WRTH FFOI, GWELAIS FECHGYN IFAINC GWELAIS FERCHED IFAINC YN DAWNSIO'N DROEDNOETH YNG NGWYNFA'R GLAW O FEWN GORWELION CREIGIOG
GWELAIS WENYN YN DRWM GAN NEITHDER YN FY NGHLUDO ADRE
O'M HALLTUDIAETH YN ÔL

# DI-DEITL




Y DIWRNOD HWNNW, GWEDDÏAIS Â GEIRIAU DDIARTH, MEWN IAITH NA ALLWN EI SIARAD.
RWY'N CHWERTHIN. GLAW YN BOWNDIO AR FY NGHEFN, FY NGHRYCHAU YN CUDDIO TREIGL AMSER
BYW FEL DIEITHRYN YM MHLITH FY LLWYTH.
RWY'N WYLO.
NI ALLAF GOFIO FY MREUDDWYDION
MAE PELYDRAU'R HAUL YN OSGOI FY NGHROEN
MAE TYLLAU YN FY ESGIDIAU
TALAIS FY NYLED FILGWAITH
I'R RHEINY OEDD Â BWRIAD I'M LLADD.
RWY'N CHWERTHIN.


DYMA FY MEDD.
DYMA FY MEDD.
Home Office
APPLICATION FOR ASYLUM: DECISION
Use this interview to explain:
how you were persecuted in your country
why you're afraid to go back to your country
You may be asked questions about difficult topics but it's
imortant that you explain what has happened to you


RWY'N SEFYLL MEWN CAE O GENIN PEDR
RWY'N AROS AMDANAT
YN AROS I TI FY NGHLADDU.